



Since being appointed as Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism in Wales in 2017, it has been my privilege to meet many of the archaeological, historical and heritage

professionals who investigate, manage and protect our shared cultural heritage. I have visited excavations, museums and heritage organisations throughout Wales and have never ceased to be impressed by the commitment, passion and enthusiasm that I encounter. I was therefore delighted to be given this opportunity to contribute to the Chartered Institute for Archaeologists yearbook.

For me, archaeology is not a marginal activity, it contributes directly to the Welsh Government's objectives and vision. I am proud that the historic environment supports all four themes of our national strategy, *Prosperity for All*, by helping to deliver a more prosperous, active, learning and united nation. As the physical manifestation of Wales's cultural heritage, the historic environment is a precious inheritance that we must care for and pass on to our children to love, cherish and enjoy.

In 2018 I published my *Priorities for the Historic Environment* which outlined my vision for how Wales can build on the great strides of recent years in caring for our irreplaceable historic sites. These have included the delivery of our own legislation for the protection and management of the historic environment – the Historic Environment (Wales) Act 2016 and the creation of the Historic Wales partnership of core national bodies. Amongst other measures, the new Act provided a statutory basis for Historic Environment Records in Wales managed by the four Welsh Archaeological Trusts, recognising the importance of those records in supporting decision-making at both local and national level. I am delighted that ClfA's national standards and guidance continue to ensure that we collectively obtain the maximum information possible about the past by emphasising the obligation to record, publish and deposit archives.

Looking to the future I recognised the need for us to support skills development within the sector to ensure that we continue to have the skilled professional workforce to investigate, manage and care for our heritage. I am pleased that the development and support of archaeological skills is a continuing priority for ClfA and I anticipate further work on this in Wales.

Also important to me is action to encourage more and wider public engagement. I recognise the benefits that active participation in archaeology can bring for communities and individuals, including excluded groups. As Deputy Minister, I have had the opportunity to visit many projects where archaeologists are working alongside communities. One example is the Unloved Heritage? project which comprises a partnership of archaeological bodies, led by Cadw and including the four Welsh Archaeological Trusts and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales. This is working with young people across Wales, finding innovative ways for them to engage with their local archaeology and heritage. These range from traditional

archaeological excavation and recording to creating virtual 3D worlds. It is my hope that projects such as this, will inspire a whole new generation of future archaeologists.

As I write this we have entered an unprecedented emergency brought about by the COVID-19 pandemic. All of our energy at the moment is rightly focused on facing the challenges brought about by the crisis. Cadw is leading on the sectoral response to the COVID-19 virus by determining the impact of the pandemic on the historic environment in Wales. Among other things it is signposting archaeological organisations and contractors to the business support mechanisms available from the Welsh and UK Governments.

We need to protect the sector because of the important economic value of the historic environment to Wales. I believe that the unique and rich heritage of Wales has the potential to lead us in our future recovery. Our historic assets are essential components of our landscapes, townscapes and contribute to our Sense of Place. They are also core to our tourism industry, and to promoting Wales as a unique place for inward investment and as a very special place in which to live and work. Crucially, the historic environment is at the heart of our well-being goals and our sense of pride as a nation.

In Wales, 2020–21 was to be our Year of Outdoors, to which archaeological fieldwork and community engagement lends itself admirably. Many projects had been lined up. Sadly, with restrictions on personal movement and social distancing in place for at least the short term, the challenge now is for archaeologists instead to use their knowledge, data and creativity to communicate the past virtually to people's living rooms and so inspire and sustain a passion for our shared past. The case studies in this volume illustrate ways to do this, but we must also consider how to reach those without ready access to the internet.

At this time where we find ourselves facing unprecedented measures to combat the current pandemic, archaeology can give us a unique time depth and perspective. It can bring communities together and help us to understand change. It can be used to provide education and to support personal and economic well-being. In my view, the role of the professional archaeologist is to facilitate this, to ensure that our material inheritance of the past is respected, not unduly harmed and survives to inspire, inform and delight future generations.

Lord Elis-Thomas AM,
the Minister for Culture, Sport and Tourism



Ers cael fy mhenodi yn Ddirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yng Nghymru yn 2017, mae wedi bod yn fraint cael cyfarfod cymaint o weithwyr archeolegol,

hanesyddol a threftadaeth proffesiynol sy'n ymchwilio, rheoli a gwarchod y dreftadaeth ddiwylliannol a rannwn. Rydw i wedi ymweld â safleoedd cloddio, amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth ledled Cymru ac mae ymrwymiad, angerdd a brwdfrydedd pobl yn creu argraff yn gyson arnaf. Ro'n i'n falch felly o gael y cyfle hwn i gyfrannu at flwyddlyfr Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr.

I mi, nid gweithgarwch ymylol yw archeoleg, mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion a gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Rwy'n falch bod yr amgylchedd hanesyddol yn cefnogi pedair thema ein strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, drwy helpu i sicrhau cenedl fwy llewyrchus, egniol, sy'n dysgu ac yn unedig. Fel yr amlygiad ffisegol o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, mae'r amgylchedd hanesyddol yn etifeddiaeth werthfawr y mae'n rhaid i ni ofalu amdani a'i throsglwyddo i'n plant i'w charu, ei mwynhau a'i thrysori.

Yn 2018 fe gyhoeddais *Blaenoriaethau ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol* a oedd yn amlinellu fy ngweledigaeth ar gyfer sut gall Cymru adeiladu ar y camau mawr a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf i ofalu am ein safleoedd hanesyddol amhrisiadwy. Mae'r camau hyn wedi cynnwys cyflawni ein deddfwriaeth ein hunain ar gyfer gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol – Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a chreu partneriaeth Cymru Hanesyddol o gyrff cenedlaethol craidd. Ymysg mesurau eraill, darparodd y Ddeddf newydd sail statudol ar gyfer Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn cael eu rheoli gan bedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru, gan gydnabod pwysigrwydd y cofnodion hyn i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol. Rwy'n falch bod safonau a chanllawiau cenedlaethol Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr yn parhau i sicrhau ein bod ni'n cydgasglu cymaint o wybodaeth â phosibl am y gorffennol drwy bwysleisio'r rheidrwydd i gofnodi, cyhoeddi ac adneuo archifau.

Wrth edrych i'r dyfodol roeddwn yn cydnabod bod angen i ni gefnogi datblygiad sgiliau yn y sector i sicrhau ein bod ni'n parhau i gael y gweithlu proffesiynol medrus i ymchwilio, rheoli a gofalu am ein treftadaeth. Rwy'n falch bod datblygu a chefnogi sgiliau archeolegol yn flaenoriaeth barhaus i Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr ac rwy'n rhagweld rhagor o waith ar hyn yng Nghymru.

Mae camau i annog mwy o ymgysylltu ac ymgysylltiad ehangach â'r cyhoedd yn bwysig i mi hefyd. Rwy'n cydnabod manteision cymryd rhan weithredol mewn archeoleg i gymunedau ac unigolion, yn cynnwys grwpiau wedi'u heithrio. Fel Dirprwy Weinidog, rwyf wedi cael y cyfle i ymweld â llawer o brosiectau lle mae archeolegwyr yn gweithio ochr yn ochr â chymunedau. Un enghraifft yw prosiect Treftadaeth Ddisylw? sy'n cwmpasu partneriaeth o gyrff archeolegol, dan arweiniad Cadw ac yn cynnwys pedair Ymddiriedolaeth

Archeolegol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc ledled Cymru, yn dod o hyd i ffyrdd arloesol iddynt gysylltu â'u harcheoleg a threftadaeth lleol. Mae'r rhain yn amrywio o gloddio archeolegol traddodiadol a chofnodion i greu bydoedd 3D rhithwir. Fy ngobaith yw y bydd prosiectau fel hyn yn ysbrydoli cenedlaeth newydd o archeolegwyr y dyfodol.

Wrth i mi ysgrifennu hwn rydym mewn argyfwng nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen yn sgil pandemig COVID-19. Ar y funud, mae'n holl egni yn canolbwyntio ar wynebu'r heriau a ddaw yn sgil yr argyfwng. Mae Cadw yn arwain ymateb y sector i feirws COVID-19 drwy benderfynu pa effaith y bydd y pandemig yn ei chael ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Ymysg pethau eraill mae'n cyfeirio sefydliadau a chontractwyr archeolegol i'r mecanweithiau cymorth busnes sydd ar gael gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

Mae angen gwarchod y sector oherwydd gwerth economaidd pwysig yr amgylchedd hanesyddol i Gymru. Rwy'n credu bod gan dreftadaeth unigryw a chyfoethog Cymru y potensial i'n harwain ni yn ein hadferiad yn y dyfodol. Mae ein hasedau hanesyddol yn elfennau hanfodol o'n tirweddau, trefluniau ac yn cyfrannu at ein Naws am Le. Maent hefyd yn greiddiol i'n diwydiant twristiaeth, ac i hyrwyddo Cymru fel lle unigryw ar gyfer mewnfuddsoddi ac fel lle arbennig iawn i fyw a gweithio. Yn hanfodol, mae'r amgylchedd hanesyddol yn ganolog i'n nodau llesiant a'n hymdeimlad o falchder fel cenedl.

Yng Nghymru, roedd 2020-21 yn mynd i fod yn Flwyddyn yr Awyr Agored, ac mae gwaith maes archeolegol ac ymgysylltu cymunedol yn cynnig eu hunain yn wych i hyn. Roedd llawer o brosiectau ar y gweill. Yn anffodus, gyda chyfyngiadau ar symudiadau personol a mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith ar gyfer y tymor byr o leiaf, yr her yn awr i archeolegwyr yw defnyddio eu gwybodaeth, eu data a'u creadigrwydd i gyfathrebu'r gorffennol mewn ffordd rithwir i ystafelloedd byw pobl gan ysbrydoli a chynnal brwdfrydedd am ein cyd-orffennol. Mae'r astudiaethau achos yn y gyfrol hon yn dangos ffyrdd o wneud hyn, ond mae'n rhaid i ni hefyd ystyried sut i gyrraedd y rhai nad oes ganddynt fynediad hawdd at y rhyngwyd.

Ar y adeg hon, a ninnau'n wynebu mesurau nhasg gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen i ymladd y pandemig cyfredol, gall archeoleg roi dyfnder a phersbectif unigryw i ni o amser. Gall ddod â chymunedau at ei gilydd a'n helpu ni i ddeall newid. Gellir ei ddefnyddio i ddarparu addysg ac i gefnogi lles personol ac economaidd. Yn fy marn i, rôl yr archeolegydd proffesiynol yw hwylyso hyn, er mwyn sicrhau bod etifeddiaeth bwysig y gorffennol yn cael ei pharchu, nad yw'n cael ei difrodi'n ddiangen a'i bod yn goroesi i ysbrydoli, hysbysu a rhoi mwynhad i genedlaethau'r dyfodol.

Yr Arglwydd Elis-Thomas AC,
y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth